

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, a Bob Davies (Llanfair) sy'n gobeithio cael mynd yn ôl i gartref Coed Isaf yn y dyddiau nesaf hyn. Mae eraill yn parhau i gael triniaeth tymor hir ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Cofiw'n yn arbennig hefyd am Eirian Davies (Cefn Meiriadog) sydd wedi symud i gartref gofal Canterbury House yn y Rhyl. Mae'n gweddïau hefyd dros Gareth a gweddill y teulu, gan gydnabod eu gofal arbennig hwythau dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf hyn. Cyflwynwn Eirian a'r teulu oll i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrando'n gweddïau, ac am addewid o'i ffyddlondeb.
- Llongyfarchiadau i Catrin a Gwilym Williams (Llansannan) ar enedigaeth merch, Nansi Gwilym, chwaer fach i Megan a Gruffydd. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.
- Llongyfarchiadau hefyd i Edwin a Jean Jones (Peniel) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Iddod

- **CYFARFOD I WERTHFAWROGI GWEINIDOGAETH Y PARCH ERIC JONES** (a fydd yn ymddeol wedi iddo wasanaethu'i Ofalaeth bresennol am dros 25ain mlynedd, a thros 16eg o flynyddoedd cyn hynny yng ngofalaeth Llansannan) HEDDIW am 3:30 yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH UNDEBOL LLANSANNAN** nos Iau, Hydref 30ain yng Nghapel Bethania am 7.30 gyda'r Parch. Rhys Llwyd yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA I DDATHLU CANMLWYDDIANT CAPEL COFFA HENRY REES** yn Llansannan nos Lun, Tachwedd 3ydd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Trefnant dydd Mercher, Tachwedd 12fed o 10.00 – 3.00.
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca – Tachwedd 14eg-16eg. Bydd rhaglen amrywiol yn cynnwys cyfle i gyfarfod Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parch. Neil Kirkham; cyflwyniad i'r rhaglen CAMU gan Meleri Cray; cyfle i weld yr arddangosfa newydd o greiriau'r Cyfundeb yng nghwmni Rhidian Griffiths, a bydd Jenny Garrard yn trafod sut y gall eglwysi a gofalaethau ddechrau darparu gweinidogaeth o'u plith eu hunain. Rhoddir sylw hefyd i'r Llawlyfr Blaenoriaid diwygiedig a chynhelir astudiaeth Feiblaidd ac oedfa ar y bore Sul. Mae croeso i flaenoriaid hen a newydd i ddod i drafod, cymdeithasu, addoli a dysgu. Cost y penwythnos fydd £85. Mwy o fanylion gan Reolydd Coleg Trefeca: 01874 711423 / colegtrefeca@ebcpcw.org.uk.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Hydref 2014

Darlleniad y Dydd

2 Pedr 3:8-13

(BCND tud.262 / BCN: tud.240)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd â'r Hydref yn ei wisgoedd aur. Mae'r Hydref yn ein hatgoffa fod i bob tymor ei waith a'i bwrpas, ac wrth i'r dail syrthio, mae'r gwreiddiau'n cryfhau ac yn paratoi at gwsg y gaeaf. Edrych ymlaen a wnawn o hyd ac mae'n rhan o gynllun Duw ein bod yn gallu edrych ymlaen mewn sicrwydd.

Mae 'na lot o ddisgwyl ymlaen wedi bod yn nheulu Catrin (Morris), merch Meirion a Sarah, a Corey wrth i'w priodas agosáu. Dymuniad Catrin oedd cael dod yn ôl i Llansannan i briodi a dymunwn yn dda i'r ddau yn eu bywyd ynghyd. Byddwn yn edrych ymlaen hefyd i ddathlu can mlynedd adeiladu Capel Coffa Henry Rees ar nos Lun, Tachwedd 3ydd, a gobeithio y cawn gwmni'r cyn-weinidogion a'u teuluoedd a lluo o ffrindiau wrth i ni edrych yn ôl dros y ganrif ac ymlaen i'r nesaf.

Beth bynnag a welwn wrth edrych ymlaen – bywyd newydd, cymdeithas, llawenydd neu gyfle i godi diolchgarwch i Dduw – cofiw'n ein bod yn gwneud hynny yng nghysgod ail-ddyfodiad Iesu. Bydd hyn yn sicr o roi'r agwedd meddwl briodol i ni oherwydd fe fydd cofio hyn yn diogelu ein bod yn edrych ar Iesu yn ei frenhiniaeth a'i awdurdod ac fe fydd hyn wedyn yn diogelu ein gobaith. Gobeithio mewn sicrwydd mawr a wna'r eglwys pan mae ei llygaid hi ar Iesu yn unig ac nid ar bethau tymhorol.

Felly, wrth feddwl am ddyfodol yr eglwys yn Llansannan a'r Fro hon, a Chymru gyfan, ein braint yw cadw golwg ar Iesu, ar Dduw, yr hwn sydd yn edrych ar fil o flynyddoedd fel un dydd ac un dydd fel mil o flynyddoedd!

Yn y darlleniad heddiw o ail lythyr Pedr cawn ein hatgoffa o'r hyn yr ydym yn disgwyl amdano. Mae'n sôn am ddifodiant y byd tymhorol trwy dân, ond yr hyn sy'n dod wedyn yw 'nef newydd a daear newydd lle mae cyfiawnder yn cartrefu' ac am hyn y mae'r eglwys yn hiraethu. Dyma lle cawn fod yng nghwmni Iesu sy'n briodfab tragwyddol i ni. Mae yma ddirgelwch mawr. Diolch fyth mai yn nhermau cyfarwydd priodas y disgrifir yr uniad rhyfeddol sydd, ac a fydd, rhwng Crist a'i Eglwys. Ac fel cwlwm cyfamod priodas y mae Williams yn disgrifio cadernid y gobaith rhyfeddol yma.

“Cwlwm wnaed yn nhragwyddoldeb,
Sicr, cadarn, mawr ei rym;
Ni all myrddiwn o flynyddoedd
Dorri hwn, na'i ddatod ddim:
Gwna, fe bery
Tra parhao Duw mewn bod.” (CFF 318)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **OEDFA'R FRO** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth • **CYFARFOD GWEDDI'R FRO** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **YMATEB I'R ANGEN** – arweiniad gan John Robinson ar rannu'n ffydd gydag eraill yn Festri Llansannan am 7.30.
- Iau • **CYFARFOD PLANT LLANSANNAN** am 3.15.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **CYFARFOD PLANT YSGOL PANT PASTYNOG** o 3.00-4.30.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sul nesaf • **OEDFA'R FRO** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mercher Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Soar, Llanfair am 7.00. Pregethir gan Mr Meurig Edwards, Hen Golwyn.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 1.15 ac Oedfa Ddiolchgarwch i'r teulu am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Cymdeithas Llansannan – Noson yng nghwmni Parti'r Siswrn dan arweiniad Mair Selway yn y Festri am 7.30.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Oedfa Ddiolchgarwch Nantglyn a Tanyfron yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Pregethir gan y Parch. Gerwyn Roberts, Llanrwt.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn y Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Gwener Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Groes am 7.00. Pregethir gan y Parch. Helen Wyn Jones, Eglwysbach.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Hosea 14:4-9 (BCND tud.826 / BCN: tud.752)